# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Cynghorydd R.Meirion Jones, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAgS, P S Rogers a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr, Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol, Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Carwyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Ieuan Williams yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS yn Is-gadeirydd.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2017 yn gywir.

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir yn y Ddeddf ac yn y Prawg Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**6 APWYNTIO STAFF**

- **Swydd Pennaeth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

  Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

  **PENDERFYNWYD hysbysebu swydd Pennaeth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn yr hydref 2017 a defnyddio'r disgrifiad swydd presennol ond gan osod tâl atodol y farchnad (gyda chefnogaeth y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol) ar y swydd a fydd yn galluogi'r Awdurdod i gystadlu'n effeithiol yn y farchnad gyflogaeth leol.**

- **Swydd Pennaeth Dysgu**

  Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthyas â'r uchod.

  **PENDERFYNWYD :-**

  - **hysbysebu swydd y Pennaeth Dysgu yn yr hydref 2017 gan ddefnyddio'r disgrigiad swydd a'r cyflog presennol, sy'n ymgorffori tâl atodol y farchnad;**
  - **cynnwys cyfeiriad at y posibilrwydd o secondiad yn yr hysbyseb ar gyfer y swydd.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**